# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd Nos Fercher 08.05.19 yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Huw Davies, (Cadeirydd), Dylan Thomas, Ian Williams, Keith Carroll, Geraint Edwards, Kevin Goodchild, David Griffiths, John Griffiths, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a thrafodwyd swyddi newydd am 2019-20

   **Cadeirydd:** **Huw Davies** ➞ pawb yn cytuno.
   **Is-gadeirydd:** **Kevin Goodchild** ➞ Cynnig: Dylan Thomas Eilio: Geraint Edwards.
   **Cynrychiolwyr:** **Un Llais Cymru:** Dylan Thomas a Kevin Goodchild. **Pwyllgor Pîg yr Allt:** Geraint Edwards.
   **Heddlu:** Ian Williams. **Y Ganolfan:** Malcolm Hills. **Swyddog Diogelu Data**: Malcolm Hills.

2. **Ymddiheuriadau:** Geraint Micah, Malcolm Hills, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol).

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **13.03.19** fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Ian Williams **Arwyddwyd** – Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (13.03.19 a 18.4.19):**
   a) **Cafwyd ymweliad safle ar yr "Allt" ger Friog – 18.04.19 - gyda swyddogion Network Rail, i drafod y gwaith sydd angen ei wneud ar y rhwystrau diogelwch, â'r wal derfyn yma.**
   Cadarnhaodd swyddogion NWR eu bod yn gobeithio y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol yma a'u bod yn gobeithio cychwyn y gwaith rhywbryd yn ystod y gaeaf – 2019/20.
   b) **Prisiau am dorri'r llwybrau:** Llwybr y Perthi a Llwybr y Crynwyr = Mis Mai, Gorffennaf a Medi
   Cof Golofn = Mis Mai, Gorffennaf, Medi a Thachwedd
   Mynwent y Crynwyr = Mis Mai, Gorffennaf a Medi
   Dau bris yn unig wedi eu derbyn ➞ Cyngor Gwynedd = £773.70 + VAT a Geraint Micah = £480.00 + VAT.
   **Penderfyniad** ➞ derbyn pris Geraint Micah a chynnig y contract iddo.
   **Cynnig:** Ian Williams **Eilio:** Huw Davies.
   c) **Cyngor Gwynedd** – llythyr yn cadarnhau eu bod wedi casglu'r arwyddion o ochr y ffordd.

5. **Gohebiaeth:**
   **a)** Hysbyseb gan Playsafe/ROSPA – archwiliad o'r cae chwarae wedi ei drefnu erbyn Mis Mehefin 2019.
   **b)** Gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â Rhaglen Waith Mis Ebrill 2019, ar gyfer Llwyngwril.
   **c)** Dathliad pen-blwydd yr eglwys yn 175 mlwydd oed - 26.05.19 - gwahoddiad i'r aelodau ymuno yn y dathlu.
   **d)** Ambiwlans Awyr Cymru - llythyr yn diolch am y cyfraniad ariannol gan y cyngor cymuned.
   **e)** Ymddiriedolaeth Gofalwyr - llythyr yn diolch am y cyfraniad ariannol gan y cyngor cymuned.
   **f)** Tenovus - llythyr yn diolch am y cyfraniad ariannol gan y cyngor cymuned.
   **g)** Y Ganolfan - derbynneb am rent Y Ganolfan am y flwyddyn 2019-20 = £100.00.
   **h)** Un Llais Cymru - derbynneb am aelodaeth ar gyfer 2019-20 = £126.00.
   **i)** Un Llais Cymru – Agenda 22.05.19 a chofnodion y cyfarfod diwethaf.
   **j)** Dafydd Ellis Thomas - llythyr yn cadarnhau ei fod wedi cysylltu â Network Rail, ynglyn a phryderon y cyngor cymuned, ynglŷn â chyflwr y rhwystrau diogelwch ar yr Allt ger Friog.

6. **Materion Cynllunio**:
   a) **Cais Cynllunio: NP5/69/45A - Tŷ Ar y Bryn, 3 Gwastadgoed Isaf, Llwyngwril**
   Gosod drysau a ffenest newydd ar y llawr gwaelod isaf
   **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad ariannol wedi ei wneud .
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Mawrth 2019 yn gywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Huw Davies.
   **a)** Praesept wedi ei dderbyn – 26.04.19 - (am 6 mis) = **£4,900.00.**
   **b)** Ffurflen ad-daliad TAW 2018-19 wedi ei pharatoi i'w gyrru i'r Swyddfa Dreth (HMRC) = **£291.40**
   **c)** Polisi yswiriant y Cyngor Cymuned hefo BHIB wedi ei adolygu – i gael ei adnewyddu erbyn 01.06.19
   **Penderfyniad** ➞ adnewyddu'r polisi hefo BHIB = **£775.80** **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Ian Williams.
   **d** Adolygu Polisi Cyfraniadau Ariannol ➞ dim newid = Y Ganolfan £1,000.00, Ambiwlans Awyr £250.00, Mynwentydd Llangelynnin £500.00 – i'w talu Mis Chwefror. Ceisiadau eraill = £250.00.
   **e)** Adolygiad o gyflog a chosta'r clerc:
   - ***Geraint Edwards wedi datgan diddordeb, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen addas, a heb gymerid rhan yn y drafodaeth.***

   Gweddill o'r aelodau wedi trafod a phawb yn gytûn gyda chynnydd o 2½% ar gyflog presennol y clerc …
   **Penderfyniad** ➞ Cyflog = £1,140.00 // Costa = £200.00 // Cynnydd o 2½% = £28.50 = **£1,368.50**
   Cyflog a chosta'r clerc i gael ei dalu dwywaith y flwyddyn – Mis Mai a Mis Tachwedd 2019, ag i gael ei adolygu yn flynyddol.
   **f)** Biniau Halen - anfoneb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am y flwyddyn 2018-19 = **£184.00.**
   **g)** Coeden Nadolig Rhoslefain 2018 - anfoneb wedi ei dderbyn gan Evans a'r Mab = **£40.00**

   **Cyfrifon y Cyngor Cymuned – 2018 - 2019**:
   - Derbyniwyd Cyfrifon y Cyngor Cymuned am y flwyddyn yn diweddi 31.03.19 yn gywir.
     **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Huw Davies**.**
   - Ffurflen Flynyddol 2018-19, wedi ei pharatoi yn barod i'r Archwiliad Mewnol ar y 22.05.19.
   - Penodwyd Uned Archwilio Fewnol Cyngor Gwynedd i archwilio cyfrifon y Cyngor Cymuned eisoes (13.03.19).

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall**:
   **a)** **Llwybrau Cyhoeddus –** nodwyd fod y gamfa ar y llwybr ger Pant Gwyn yn beryglus ac angen sylw brys
   **b)** **Llwybr Llwyn Du -** giât ar y llwybr angen sylw, gan nad ydi hi'n cau yn iawn, ac yn cael ei gadael ar agor o hyd
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â swyddog llwybrau cyhoeddus Cyngor Gwynedd.
   **c)** **Wal gynnal (ger Golwg y Môr, Llwyngwril,)** wedi dod i lawr ac angen ei adeiladu yn ôl i fynnu
   **Penderfyniad** ➞ hysbysu swyddogion Cyngor Gwynedd.
   **d)** **Sunbeach, Llwyngwril** - nodwyd fod llawer o slabiau concrit wedi eu gosod ar gyfer carafanau newydd ar y safle, ag ar yr hawl tramwy i'r traeth. ?? A roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y safleoedd ychwanegol yma??
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 12.06.19 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**